| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 04/04/22 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 18/01/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 2.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes gwasanaeth:** | Uned Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau |
| **Maes gwaith:** | Polisi a Phartneriaethau |
| **Manylion Cyswllt:** | 01443 811365<br>CymorthWcrain@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Hysbysiad Preifatrwydd – Cartrefi i Wcráin |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r data personol y mae'n eu cael o dan Gynllun Cartrefi i Wcráin. |

# Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu

**Categorïau o ddata personol a geir**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael y categorïau canlynol o ddata personol:

<u>Pobl Wcráin</u>

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost,
- Dyddiad geni
- Gwybodaeth Fisa / Pasbort
- Gwybodaeth am aelodau'r teulu, gan gynnwys unrhyw blant
- Gwybodaeth am anabledd ac iechyd
- Ethnigrwydd
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw bryderon diogelu
- Enw'r ysgol y bydd unrhyw blant yn ei mynychu
- Crefydd

<u>Y teulu sy'n noddi</u>

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion aelodau'r teulu sy'n byw yn yr eiddo, gan gynnwys oedrannau
- Manylion cyswllt, gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw faterion diogelu, gwiriadau diogelwch ac asesiadau cartref sydd eu hangen ar gyfer eich addasrwydd chi i ddarparu cymorth
- Manylion banc i brosesu'r taliad misol i ddweud diolch.
- Mae angen yr wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod darpariaeth yn ei lle a bod pobl yn cael eu cynorthwyo'n briodol

**Ffynhonnell y data personol**

- Fel rhan o gynllun Cartrefi i Wcráin, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (fel yr Awdurdod Lleol lletyol), yn cael gwybodaeth gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ar bob person sy'n cael ei groesawu i'r Fwrdeistref Sirol. Efallai y byddwn ni hefyd yn cael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrthyn nhw.
- O ran noddwyr, byddwn ni'n cael eu gwybodaeth o'u ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth ychwanegol y byddwn ni'n ei chasglu'n uniongyrchol ganddyn nhw.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Rydyn ni wedi ymrwymo i dderbyn pobl Wcráin drwy gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd y cynllun hwn yn helpu pobl Wcráin gyda thai, addysg, iechyd ac integreiddio i'r gymuned, yn ogystal â helpu'r bobl sy'n gwirfoddoli i noddi pobl Wcráin a'u teuluoedd.

Rhaid nodi bod rhaid i gynghorau newid yn gyflym y ffordd y maen nhw'n gweithio yn ystod y cyfnod hwn er mwyn parhau i ddarparu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch chi. Byddwn ni bob amser yn dilyn cyngor ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wrth wneud unrhyw newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Fel rhan o'r broses hon:
- Byddwn ni'n cynnal asesiad i sefydlu pa gymorth y gallwn ni ei roi ar waith ar gyfer pobl Wcráin yn ogystal ag asesu aelwyd y noddwr.
- Er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch chi, efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu ag adrannau'r Cyngor ac asiantaethau eraill.
- Byddwn ni'n cadw cofnod o'r cymorth y byddwn ni'n ei ddarparu a gallwn ni gynnal adolygiadau rheolaidd i sefydlu a yw'r rhaglen yn gweithio, neu a oes angen i ni newid unrhyw beth i helpu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau cymorth ôl-gyrraedd yn cynnwys sefydliadau fel gwasanaethau iechyd a chymorth.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Erthygl 6(1)(c) – Rhwymedigaeth gyfreithiol – i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â darparu tai, addysg, cymorth budd-daliadau ac ati.

Erthygl 6(1)(e) - i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol - i ddarparu'r lefel briodol o gymorth ar gyfer y bobl o Wcráin wedi'u hadleoli i'r Fwrdeistref Sirol a'r teulu noddwr.

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os bydd unrhyw wybodaeth yn dod o fewn y diffiniad o ddata personol categori arbennig, yna mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Necessary for reasons of substantial public interest - Art 9(2)(g). The UK GDPR Art 9(2)(g) requires a basis in UK law, which is provided by Section 10(3) of the Data Protection Act 2018.
This in turn refers to the need to meet a relevant condition in Part 2 of Schedule 1 of the DPA 2018. Paragraph 6(1)(b) of Part 2 of Schedule 1 – processing is necessary for reasons of substantial public interest, in the exercise of a function conferred by an enactment or rule of law.
Mae deddfwriaeth Diogelu Data hefyd yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer data personol mewn perthynas ag euogfarnau troseddol a throseddau. Os bydd unrhyw ddata personol yn dod o fewn y categori hwn, yna rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 10 o'r Rheoliadau, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

Article 10 - Personal Data about criminal convictions, offences or related security measures.
Meets a relevant condition in Part 1, 2 or 3 of Schedule 1 of the Data Protection Act 2018.
The relevant conditions are:
Paragraph 2(2)(e) – processing is necessary for social care purposes
Paragraph 6(2)(a) – processing is necessary for the exercise of a function conferred by an enactment or rule of law
Paragraph 10(1) – processing is necessary for the purposes of the prevention or detection of an unlawful act.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Mr Carl Evans
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Prif ddefnyddiwr eich data fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu â sefydliadau eraill.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Yn dibynnu ar y cymorth sydd ei angen, efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu â gwasanaethau eraill y Cyngor, a all gynnwys:
- Addysg
- Gwasanaethau Ariannol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Adnoddau Dynol
- Tai/Ddigartrefedd

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Mae’n bosibl y byddwn ni hefyd yn rhannu eich gwybodaeth chi â’r sefydliadau canlynol:

- Darparwr Gwasanaethau Cymorth (Cyngor Ffoaduriaid Cymru)
- Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru
- Asiantaethau'r Llywodraeth (Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig)
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Gwasanaethau Iechyd)
- Heddlu Gwent
- Ysgolion o fewn y Fwrdeistref Sirol
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Awdurdodau Lleol Eraill
- Grwpiau gwirfoddol a grwpiau ffydd lleol

Os credir y gallai plentyn neu oedolyn agored i niwed fod mewn perygl, mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymchwilio a dilynir Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai hyn gynnwys sawl asiantaeth, er enghraifft yr heddlu, y gwasanaeth iechyd neu'r maes addysg. Hefyd, os ydych chi'n weithiwr proffesiynol/wirfoddolwr sy'n destun honiadau o gam-drin/esgeulustod, gallai hyn gynnwys eich cyflogwr.

**Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol**

Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), fel proseswyr data ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer trosglwyddo a rhannu eich data personol yn ddiogel rhyngom ni, Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Cymru.

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch chi'n gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn ni'n cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth?

Dim ond am y cyfnod sydd ei angen y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol chi a bydd yn dilyn safonau sefydliadol ac Awdurdodau Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n cael gwared ar y data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanyn nhw):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych chi'n anfodlon ar y ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych chi'r hawl i gwyno. Cysylltwch â'r maes gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, mae gennych chi hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

O dan y cynllun Cartrefi i Wcráin, efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn cynorthwyo pobl Wcráin gyda thai, addysg, iechyd ac integreiddio i'r gymuned, yn ogystal â helpu'r bobl sy'n gwirfoddoli i noddi pobl Wcráin a'u teuluoedd.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn ni'n cynnal asesiad i sefydlu pa gymorth y gallwn ni ei roi ar waith ar gyfer pobl Wcráin yn ogystal ag asesu aelwyd y noddwr. Er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen, efallai y bydd eich gwybodaeth chi'n cael ei rhannu ag adrannau'r Cyngor ac asiantaethau eraill. Byddwn ni'n cadw cofnod o'r cymorth y byddwn ni'n ei ddarparu a gallwn ni gynnal adolygiadau rheolaidd i sefydlu a yw'r rhaglen yn gweithio, neu a oes angen i ni newid unrhyw beth i helpu Bydd hyn yn cynnwys datblygu cynlluniau cymorth ôl-gyrraedd yn cynnwys sefydliadau fel gwasanaethau iechyd a chymorth.

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich gwybodaeth fydd Erthygl 6(1)(c) - Rhwymedigaeth gyfreithiol - i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â darparu tai, addysg, cymorth budd-daliadau ac ati ac Erthygl 6(1)(e) - i gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer ein swyddogaethau swyddogol ni - i ddarparu'r lefel briodol o gymorth. Dim ond am y cyfnod sydd ei angen y bydd y Cyngor yn cadw eich data personol chi a bydd yn dilyn safonau sefydliadol ac Awdurdodau Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw, bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n cael gwared ar y data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}